# Locysau

Daw'r cwestiynau canlynol o hen bapurau arholiad TGAU (Haen Uwch).

# Locysau

**CWESTIWN 1: Papur 1 Mehefin 2011 (Llinol 185/59); Cwestiwn 6a (3 marc).**

**6.** *(a)* Tywyllwch y rhanbarth sy'n bodloni'r ddau amod canlynol.

(i) Mae'r pwyntiau'n llai na 5 cm o $X$.
(ii) Mae'r pwyntiau'n agosach at $Y$ nag at $X$.

[3]





**CWESTIWN 2: Papur 1 Tachwedd 2011 (Llinol 185/59); Cwestiwn 4ch (3 marc).**

*(ch)* Mae'r diagram isod yn dangos triongl $ABC$. Darganfyddwch a **thywyllwch** y rhanbarth y tu mewn i'r triongl sy'n bodloni'r **ddau** amod canlynol.

(i) Mae'r holl bwyntiau yn y rhanbarth yn agosach at $AC$ nag at $AB$.

(ii) Mae'r holl bwyntiau yn y rhanbarth yn llai na 5 cm o $A$.




# Locysau

**CWESTIWN 3: Papur 1 Tachwedd 2009 (Llinol 185/59); Cwestiwn 5b (3 marc).**

(*b*) Darganfyddwch a thywyllwch ranbarth y pwyntiau y tu mewn i'r triongl *ABC* sy'n bodloni'r ddau amod canlynol.

(i) Mae'r pwyntiau'n agosach at *BC* nag at *AB*.
(ii) Mae'r pwyntiau'n llai na 5 cm o *B*.

[3]





**CWESTIWN 4: Papur 1 Mai 2008 (Llinol 185/59); Cwestiwn 11 (3 marc).**

**11.** Tywyllwch y rhanbarth sy'n bodloni'r ddau amod canlynol.

(i) Mae'r pwyntiau'n llai na 7 cm o *X*.

(ii) Mae'r pwyntiau'n agosach at *Y* nag at *X*.


[3]



# Locysau


**CWESTIWN 5: Pâr Cysylltiedig – Peilot – Uned 1 Cymwysiadau Mehefin 2014 (4361/52); Cwestiwn 8 (5 marc).**

**8.** Mae troli yn cael ei dynnu i fyny ychydig o risiau.



Mae olwynion y troli bob amser yn aros mewn cysylltiad â'r grisiau ar y ffordd i fyny.

Mae'r diagram ar y dudalen gyferbyn yn dangos ochrolwg *(side view)* un o olwynion y troli a'r grisiau.
Ar y diagram, lluniadwch *(draw)* locws **canol** olwyn y troli wrth i'r troli gael ei dynnu i fyny i ben y gris uchaf. [5]



# Locysau

**CWESTIWN 6: Pâr Cysylltiedig – Peilot – Uned 1 Cymwysiadau Mehefin 2012 (4361/52); Cwestiwn 8 (7 marc).**

**8.** *Cewch eich asesu ar ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig yn y cwestiwn hwn.*


Bydd cystadleuaeth bysgota yn cael ei chynnal allan ar y môr mewn ardal betryal sy'n 5 km wrth 4 km ac sydd wedi'i marcio gan fwiau *(buoys)*. Mae cychod diogelwch *(safety boats)* wedi'u lleoli ar ddwy gornel wahanol o'r ardal betryal sydd wedi'i marcio gan y bwiau.
Mae pob cwch diogelwch yn patrolio ardal sydd heb fod yn fwy na 3 km o'i safle cychwynnol.

Ystyriwch yr opsiynau ar gyfer lleoli'r ddau gwch diogelwch.
Penderfynwch pa un o'ch opsiynau sydd orau ar gyfer lleoli'r ddau gwch diogelwch.
Rhaid i chi ddangos yn glir mai eich datrysiad chi yw'r opsiwn gorau ac egluro pam.

**CWESTIWN 7: Pâr Cysylltiedig – Peilot – Uned 2 Dulliau Mehefin 2014 (4364/52); Cwestiwn 11 (4 marc).**

**11.** *(a)* Mae pwynt yn symud fel ei fod yn gytbell *(equidistant)* o'r echelin $x$ a'r echelin $y$.

(i) Ar y grid isod, plotiwch locws y pwynt. [2]




(ii) Ysgrifennwch yr hafaliadau sy'n cynrychioli locws y pwynt. [2]


..............................................................................................................................................

.............................................. a ..............................................

**CWESTIWN 8: Uned 3 Mehefin 2014 (Unedol 4353/52); Cwestiwn 8 (3 marc).**


**8.** Tywyllwch *(shade)* y rhanbarth, y tu mewn i'r triongl isod, sy'n bodloni'r naill a'r llall *(both)* o'r ddau amod canlynol:

- mae'n llai na 5 cm o *AC*, ac
- mae'n llai na 4 cm o *B*. [3]




**CWESTIWN 9: Uned 3 Ionawr 2014 (Unedol 4353/52); Cwestiwn 6 (2 farc).**


**6.** Mae'r diagram yn dangos darn arian y tu mewn i gylch crwn mawr.
Mae canol y darn arian yn cael ei ddangos.
Mae'r darn arian yn cael ei rolio o gwmpas rhan fewnol y cylch, fel ei fod bob amser mewn cysylltiad â'r cylch.
Brasluniwch locws canol y darn arian wrth iddo gael ei rolio o gwmpas rhan fewnol y cylch. [2]



# Locysau

## CWESTIWN 10: Uned 3 Mehefin 2012 (Unedol 4353/52); Cwestiwn 5 (3 marc).

**5.** Mae'r diagram yn dangos y golwg o'r awyr *(aerial view)* ar bêl mewn blwch.
Mae canol y bêl wedi'i farcio yn y diagram.
Rhaid i'r bêl aros mewn cysylltiad ag o leiaf un ochr o'r blwch.
Lluniadwch locws y set o bwyntiau lle gallai canol y bêl fod y tu mewn i'r blwch hwn.




## CWESTIWN 11: Papur 1 Mai 2009 (Peilot 185/63); Cwestiwn 6 (3 marc).

**6.** Darganfyddwch a thywyllwch ranbarth y pwyntiau o fewn y petryal *ABCD* sy'n bodloni'r **ddau** amod canlynol.


- Mae'r pwyntiau'n agosach at y llinell *AB* nag at y llinell *DC*.
- Mae'r pwyntiau'n llai na 6 cm o'r pwynt *A*.

[3]




**CWESTIWN 12: Papur 1 Mai 2008 (Llinol 3 Haen 184/59); Cwestiwn 6c (2 farc).**

(c) Mae disg crwn, canol *D*, yn cael ei rolio ar hyd llawr gwastad ac yna i fyny llethr. Lluniadwch locws *D* wrth i'r disg gael ei rolio o *X* i *Y*. [2]




**CWESTIWN 13: Papur 1 Mehefin 2006 (Llinol 3 Haen 184/59); Cwestiwn 5 (3 marc).**

**5.** Mae'r diagram yn cynrychioli golwg ar adeilad o'r awyr. Mae ci wedi'i glymu â llinyn wrth ochr yr adeilad yn *X*.
Lluniwch ffin y rhanbarth y gall y ci grwydro ynddo. [3]



# Locysau

**CWESTIWN 14: Modiwl 2 Papur 1 Mehefin 2008 (Modwlar 182/55); Cwestiwn 2 (4 marc).**

**2.** Mae'r diagram yn cynrychioli uwcholwg ar gae *ABCD*. Mae ffynnon yn y pwynt *W*. Y raddfa sydd wedi ei defnyddio yw 1cm yn cynrychioli 10m.

Tywyllwch y rhanbarth sy'n bodloni pob un o'r amodau canlynol.

Mae pob pwynt yn y rhanbarth

(i) yn agosach at *AB* nag at *AD*,

(ii) heb fod yn fwy na 50m o *AB*,

(iii) o fewn 40m i'r ffynnon sydd wedi ei nodi yn *W*.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos yn glir y rhanbarth sy'n bodloni pob un o'r tri amod.

[4]

